JONES, DAVID WATKIN ('Dafydd Morganwg'; 1832 - 1905), bardd, hanesydd, a daearegydd

Enw: David Watkin Jones
Ffugenw: Dafydd Morganwg
Dyddiad geni: 1832
Dyddiad marw: 1905
Rhiant: John Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd, hanesydd, a daearegydd
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Hanes a Diwylliant; Natur ac Amaethyddiaeth; Barddoniaeth; Gwyddoniaeth a Mathemateg
Awdur: Moelwyn Idwal Williams

Ganwyd ym Merthyr Tydfil, 14 Chwefror 1832, mab John Jones, cefnder i Daniel Evans ('Daniel Ddu o Geredigion'). Dechreuodd weithio yn y lofa cyn ei fod yn 10 mlwydd oed. Gwrthododd hyfforddiant ar gyfer yr Eglwys, a thrwy ei ddyfalbarhad cafodd ei wneud yn danwr yn 1859, ac yn yr un flwyddyn enillodd ei wobr eisteddfodol gyntaf. Gwasnaethodd y Compagnie Générale Transatlantique fel goruchwyliwr am 30 mlynedd. Bu yn eisteddfodwr llwyddiannus iawn, yn cael ei brif wobrwyon ym Machynlleth 1870, Llanberis 1878, a Chaerdydd, 1883. Sgrifennodd lawer i'r *Geninen* a chylchgronau eraill, a chyfrannodd yn helaeth i *Cymru (O.J.)*. Yn 1874, cyhoeddodd ei *Hanes Morganwg*. Ond ei waith mwyaf adnabyddus, efallai, yw *Yr Ysgol Farddol*, gwerslyfr barddonol a gyhoeddwyd gyntaf yn 1869. Cyhoeddodd hefyd ramadeg defnyddiol yn ei ddydd, *Yr Ysgol Gymreig*. Bu'n olygydd y golofn Gymraeg yn y *Cardiff Times* am flynyddoedd lawer. Yn 1888 cafodd ei ethol yn llywydd cyntaf Cymdeithas Cymmrodorion Caerdydd. Bu farw 25 Ebrill 1905 yng Nghaerdydd.

Awdur

Dr Moelwyn Idwal Williams

Ffynonellau

The Cardiff Times, 29 Ebrill 1905

Manchester Guardian, 26 Ebrill 1905

Y Geninen, 1905, 198-201

Quarterly Journal of the Geological Society of London, vol. 56, 1900, xcv

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: David Watkin Jones

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 29302571

Wikidata: Q18535730

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu